

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

28 Ionawr 2021

At: Brif Weithredwyr y GIG, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Annwyl Gyfeillion

## **Yr wybodaeth ddiweddaraf am Drefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE) a Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE)**

Ysgrifenasom atoch ar 11 Rhagfyr i roi trosolwg o baratodau Pontio'r UE ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Ers hynny, byddwch yn ymwybodol bod datblygiadau sylweddol wedi digwydd. Cafodd Cytundeb Masnach a Chydweithredu ei daro rhwng y DU a'r UE ar 24 Rhagfyr, a ddilyswyd wedi hynny gan Senedd y DU cyn i drefniadau newydd gyda'r UE ddod i effaith o 1 Ionawr ymlaen. Mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariad pellach yng ngoleuni'r datblygiadau hyn.

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU/UE yn golygu bod gennym bellach ddarlun cliriach o berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Yng nghyd-destun y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r cytundeb hwn yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio, hyd yn oed gyda chytundeb ar waith, fod newidiadau sylweddol bellach wedi dod i effaith – er enghraifft, y newidiadau i'r ffordd y mae nwyddau'n teithio rhwng y DU a'r UE, a'r newidiadau i'r seilwaith ffiniau a thollau.

Mae ein paratodau ar gyfer Pontio'r UE wedi'u cynllunio i ymateb i amrywiaeth o senarios ac, o'r herwydd, maent yn dal yn berthnasol i'r cyd-destun newydd yr ydym bellach yn gweithredu ynddo. Er enghraifft, rydym yn parhau i weithredu'r trefniadau helaeth yng Nghymru a ledled y DU ar gyfer sicrhau cyflenwad parhaus o feddyginiaethau a nwyddau hanfodol eraill, gan gynnwys y rheini sydd ar gyfer treialon clinigol, drwy gydol y cyfnod hwn. Er nad oes lle i orffwys ar ein rhwyfau wrth gwrs, mae'r rhain yn rhoi hyder inni y byddwn yn gallu rheoli unrhyw oedi tymor byr posibl o ran cyflenwadau a allai godi yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu ein blaenoriaethau trawslywodraethol eraill megis hyrwyddo cynllun Statws Preswlydd Sefydlog yr UE. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus i annog unrhyw staff, dinasyddion a'r rheini sy'n

derbyn gwasanaethau gofal a chymorth sy'n gymwys i wneud cais mewn da bryd cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyhoeddi asesiad cyffredinol o'r hyn y mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ei olygu i Gymru ym mis Chwefror. Yn y cyfamser, roedd ein llythyr blaenorol yn cyfeirio at rai meysydd penodol lle'r oedd y trefniadau ar gyfer y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad cyffredinol y negodiadau. Mae'r safbwynt polisi ar gyfer y rhain bellach wedi dod yn gliriach drwy'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, er bod rhagor o fanylion yn debygol o barhau i ddod i'r amlwg wrth i'r cytundeb gael ei weithredu. Ceir yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol isod.

## **Gofal iechyd cilyddol**

Roedd y Cytundeb Ymadael a negodwyd yn flaenorol gyda'r UE eisoes yn darparu bod gan rai grwpiau hawliau gofal iechyd cilyddol gydol oes o hyd. Roedd hyn yn golygu na fydd y trefniadau presennol yn newid ar gyfer gwladolion y DU a oedd yn preswyllo yn yr UE (a dinasyddion yr UE yn y DU) cyn 31 Rhagfyr 2020, cyhyd â'u bod yn byw yn y wlad honno yn gyfreithlon ac wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Ymadael.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn adeiladu ymhellach ar y trefniadau sydd eisoes ar waith. Yr elfennau allweddol yw:

- Bydd preswylwyr y DU yn parhau i gael mynediad at ofal iechyd brys ac angenrheidiol pan fyddant yn teithio i'r UE, gan weithredu fel y cynllun Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) presennol;
- Mae Cerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang newydd y DU (GHIC) ar gael ond mae pobl yn dal i allu defnyddio eu cerdyn EHIC, gan fod cardiau cyfredol yn parhau'n ddilys tan eu dyddiad dod i ben. Bydd y rhai sy'n teithio i'r DU o'r UE hefyd yn gallu parhau i ddefnyddio eu cardiau EHIC;
- Bydd trefniadau gofal iechyd a gynlluniwyd ymlaen llaw yn parhau, a bydd pensiynwyr, gweithwyr trawsffiniol a rhai grwpiau eraill cymwys – ac aelodau o'u teuluoedd – yn parhau i elwa ar drefniadau gofal iechyd cilyddol i dalu am eu costau gofal iechyd. Dylai sefydliadau barhau i ddefnyddio'r prosesau sydd eisoes ar waith i adennill y costau hyn gan Aelod-wladwriaethau;
- Ni cheir trefniadau ar gyfer triniaeth o dan y Gyfarwyddeb Drawsffiniol mwyach ac ni all dinasyddion y DU ddefnyddio'r llwybr hwn i gael triniaeth gofal iechyd yn yr UE, ac eithrio mewn amgylchiadau trosiannol penodol;
- Gyda hawl pobl i symud yn rhydd yn dod i ben, bydd dinasyddion yr UE sy'n symud i'r DU o 1 Ionawr 2021 ymlaen am fwy na chwe mis yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo ac yn talu'r gordal iechyd mewnfudo fel rhan o unrhyw gais am fisa (ond bydd rhai grwpiau'n gallu ceisio ad-daliad). Gellir codi tâl ar ymwelwyr tymor byr â'r DU nad ydynt yn dod o dan y trefniadau gofal iechyd cilyddol am driniaeth y GIG.

## **Diogelwch iechyd**

Mae'r cytundeb gyda'r UE yn cynnwys trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y DU a'r UE os bydd bygythiad trawsffiniol difrifol i iechyd, sy'n arbennig o bwysig yng nghydestun COVID-19. Mae'n galluogi'r DU i ofyn am fynediad at System Rhybuddio ac Ymateb Brys yr UE mewn perthynas â bygythiad iechyd trawsffiniol difrifol fel y gellir cyfnwio gwybodaeth a chydgyssylltu mesurau i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Yn ogystal â hynny, mae'r

cytundeb yn darparu ar gyfer cydweithredu ar faterion gwyddonol a thechnegol rhwng y DU a Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC).

## **Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol (MRPQ)**

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol. Mae 'cyfnod segur' o hyd at ddwy flynedd ar waith lle mae cymwysterau proffesiynol gofal iechyd presennol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn parhau i gael eu cydnabod yn y DU.

Ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dod o dan y Cytundeb ar Hawliau Dinasyddion y Swistir, mae'r cyfnod hwn yn ymestyn i bedair blynedd ac mae'n berthnasol i weithwyr proffesiynol sy'n dymuno gweithio yn y DU yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol sy'n dymuno gweithio yn y Swistir. Fodd bynnag, dylai gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso yn y DU sy'n dymuno cyflenwi gwasanaethau yng ngweddill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ar ôl 1 Ionawr geisio cydnabyddiaeth o'u cymwysterau gan ddefnyddio'r rheolau cenedlaethol yn Aelod-wladwriaethau'r UE.

Fel rhan o'r cytundeb, bydd rheoleiddwyr proffesiynol fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gallu gweithio gyda'u cymheiriaid yn yr UE i gytuno ar broses ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn nhiriogaethau ei gilydd yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i reoleiddwyr negodi Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol neu fel arall ddefnyddio llwybrau cydnabod cymwysterau trydydd gwledydd sy'n bodoli eisoes i gydnabod cymwysterau'r UE.

Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar ddatblygu dull cyson o gydnabod cymwysterau proffesiynol gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gwnaethom rai mân newidiadau technegol yn ddiweddar i adlewyrchu Cytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir a sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori yn rheoliadau Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a chyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel rheoleiddiwr yn y maes hwn.

## **Data**

Mae'r cytundeb yn darparu 'meganwaith pontio' sy'n gyfyngedig o ran amser sy'n caniatáu i ddata personol o Aelod-wladwriaethau'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd / Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop barhau i lifo i'r DU fel y maent ar hyn o bryd. Mae'r mecanwaith hwn ar waith tra bo penderfyniadau ynghylch digonolrwydd data'r UE ar gyfer y DU yn cael eu mabwysiadu, ac am ddim mwy na chwe mis (o 1 Ionawr 2021). Yn unol â chyngor blaenorol, yn ystod y mecanwaith pontio dylai sefydliadau gynnal, neu roi mecanweithiau trosglwyddo amgen ar waith, i ddiogelu rhag unrhyw ymyriad yn y dyfodol i lif rhydd data personol yr UE i'r DU. Mae'r DU, ar sail drosiannol, wedi ystyried bod Aelod-wladwriaethau'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd / Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop yn ddigonol i ganiatáu llifau data o'r DU.

## **Ymchwil**

O dan y trefniadau newydd, bydd y DU yn cysylltu â rhaglen Horizon Europe ac yn gallu cymryd rhan unwaith y bydd yr UE wedi cwblhau ei Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar gyfer

2021-27. Bydd cyfranogiad yn cefnogi partneriaethau parhaus rhwng arbenigwyr ymchwil a gwyddoniaeth y DU ac Ewropeaidd. Disgwylir i'r rhaglen ddechrau yn gynnar yn 2021 ac anogir ymchwilwyr a busnesau'r DU i ffurfio partneriaethau cydweithredol gyda chymheiriaid rhyngwladol gyda'r bwriad o baratoi i wneud cais. Ar gyfer y rhai sy'n derbyn cyllid Horizon 2020 ar hyn o bryd yn y DU, bydd y telerau a'r amodau yn aros yr un fath ag y cytunwyd arnynt yn flaenorol o dan y Cytundeb Ymadael.

Gobeithiwn y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol wrth inni ddechrau ar gyfnod o addasu i'r newidiadau amrywiol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE. Dylech gyfeirio o hyd at wefan Paratoi Cymru (<https://llyw.cymru/paratoi-cymru>), Cwestiynau Cyffredin Cydffederasiwn GIG Cymru (<https://www.nhsconfed.org/resources/2019/02/managing-eu-withdrawal-in-health-and-social-care-in-wales-faqs>) a deunyddiau eraill a ddosbarthwyd drwy ein mecanweithiau rhaeadru sefydledig. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi ar y meysydd hyn ac ar flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn ystod 2021.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall CBE**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol,  
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



**Albert Heaney**  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol